Panto

Mwynhaodd y plant berfformiad rhagorol gan gwmni'r Frân Wen o "Ogo Ogo Pogo". Brysiwch yn ôl y flwyddyn nesaf.

Amgueddfa Ceredigion

Cafodd dosbarth Mrs Mitchell ymweliad arbennig iawn yng nghwmni Sian Davies Jones a'i chriw. Crewyd awyrgylch real trwy gyfrwng stori ac adnoddau yr Amgueddfa. Tra roedd un grŵp yn gwrando stori, roedd y grŵp arall mewn gweithdy yn creu Fari Lwyd sydd bellach yn byw yn Ysgol Penrhyn-coch.

Chwaraeon

Cafwyd ymweliad gan Tony Cottey, y cricedwr ddechrau'r mis. Bu blwyddyn 5 a 6 yn gwrando'n astud ar ei sgwrs.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Glwb Cymdeithasol Penrhyn-coch am eu rhodd o git pêl-droed i'r ysgol. Byddant i'w gweld yn sgorio yn eu lifrau newydd cyn hir.

Ffarwelio a chroesawu

Bu'n rhaid ffarwelio â Mrs Louisa Phillips a fu'n dysgu Blwyddyn 1 a 2 am dymor yr Hydref. Diolchwn iddi am ei gwaith a'i chydweithio parod. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd fel athrawes fro.